

Ona Beth-os?

Cyfieithwyd gan: Iwan Huws



INSTITUTE
OF NEXT
BY INFONOMIA

O^{na} Beth-os?

Syniad gwreiddiol: Alfons Cornella

Testun: Gina Clotet · Lluniau: Silvia Morilla · Dyluniad: Curro Astorza

Cyfieithwyd gan: Iwan Huws

Fy enw i yw Ona.

Mae mam yn dweud 'mod i'n
chwilfrydig fel cath.

Ona Beth-Os, dyna mae hi'n
fy ngalw i. Rwy'n caru gofyn
cwestiynau hyd yn oed os nad oes
gen i atebion.

Bob tro y byddwn ni'n gofyn 'sut?',
dw i'n meddwl y gallwn ni feddwl
am ateb.

Ona Beth-os?




1.

Ar ddechrau diwrnod newydd,
yn y gawod rwy'n meddwl...

Beth mae'r bwystfil
sy'n byw yn y bibell
yn ei wneud gyda'r holl
ddŵr sy'n llifo i'r draen
tra 'mod i'n disgwyl
iddo gynhesu?

Ona Beth-os?



2.

Rwy'n mynd tu allan,
a'n dychmygu...

...fod y gwm cnoi sy'n
sownd i'r pafin yn codi fel
swigod, a'n hedfan i ffwrdd,
gan adael i fy sgwter fynd
fel y gwynt.

Ona Beth-os?



3.

Rwy'n deall bod rhaid i ni eistedd yn
y dosbarth, ond rwy'n teimlo fod fy
syniadau'n sownd i'r llawr.

Beth os byddwn i'n gadael
iddynt hedfan?

Beth os byddai fy syniadau i'n
gallu rowlio?

Ona Beth-os?



4.

Mae mam yn gofyn sut y gwnes
i golli fy nghôt. Mae hi'n dweud
fod rhaid i mi ddod o hyd iddi.

Beth os byddai fy nghot
yn fy nghanfod i?

Ona Beth-os?



5.

Diwrnod cyfan yn cario bag...

Ydy cefnau malwod
yn brifo o hyd?

Ona Beth os?



6.

Mae taid yn llawn straeon.

Beth os byddai'n stwffio ei
holl straeon i mewn i focsys,
rhag iddynt fynd ar goll?

Ona Beth-os?




7.

Dyw fy nain a'i ffôn ddim
yn hoff iawn o'i gilydd...

Beth os byddai ffôn nain yn
debycach i'r ffonau yr oedd
hi'n eu defnyddio pan oedd
hi'n ifanc?

Ona Beth-os?



8.

Mae Nain a Taid wedi
rhoi arian i mi.

Pan fydd gen i ddigon,
mi wna'i brynu telesgop.

Ond yn y cyfamser,
oes ffordd o gael hwyl
wrth gynilo?

Ona Beth-os?



9.

Dw i wedi cyfrif cerrig, dw i wedi
cyfrif pobl, ac adar hefyd, does
dim byd ar ôl i'w cyfrif.

Beth os na fyddai disgwyl
yn ddiflas?

Allwch chi ddychmygu
hynny?

Ona Beth-os?



10.

Adref, dw i'n hoff o gael lloriau glân, ac
mae'r un peth yn wir am y tu allan hefyd.

Rwyt ti wedi'i weld o,
dw i wedi'i weld o.

Pwy wnaiff ei godi?

Ona Beth-os?



11.

Alla i ddim dychmygu
byd heb goed...

Beth os byddwn ni
gyd yn cario hadau
mewn pocedi tyllog?

Ona Beth-os?



12.

Pam mai dim ond oedolion
sy'n cael gwneud penderfyniadau
am ein dyfodol?

Mae gan blant fwy o ddyfodol.
Beth os bydden nhw'n
gofyn i ni?

Ona Beth-os?




13.

Mae'n rhaid mai person
diflas iawn wnaeth
ddyfeisio gwaith cartref.

Beth os byddai gwneud
mathemateg yn debycach
i fod ar raglen deledu?

Ona Beth-os?



14.

Mi fyddwn wrth fy modd yn cael
chwaer fawr i fy helpu i, fel sydd
gan fy ffrind Chloe.

Beth os byddwn i'n
mabwysiadu un?

Ona Beth-os?



15.

Mr Shorofsky oedd yn dysgu'r
feiolin i mam hefyd.

Mae'r gerddoriaeth
yma'n hen iawn.

Oes rhaid i'r gwersi
fod yn hynafol hefyd?

Ona Beth-os?



16.

Mae gweld os yw dillad
yn ffitio yn hunllef.

Oes ffordd o weld sut
maen nhw'n edrych,
heb i mi orfod tynnu
un hosan?

Ona Beth-os?



17.

All neb arall wisgo fy ffrog i.

Fi fy hun wnaeth
ei chreu hi.

Ona Beth-os?



18.

Mae Dad yn poeni fod y peiriant
golchi wedi torri.

Gallai arbenigwr fy nysgu i
sut i'w drwsio, ac yn ddiolch
gallwn eu dysgu sut i sychu
'gwaith cartref gwlyb' - fi yw'r
arbenigwr ar wneud hynny!

Ona Beth-os?



19.

Pan fydd fy chwaer fach yn
flin, mae dymi'n gallu datrys
pob dim.

Beth os byddai dymi
ar gyfer rhieni?

Ona Beth-os?



20.

Pan ddaw diwedd y dydd, dw i'n
ofni fod yr ysgol yn teimlo'n unig
ar ôl i ni adael.

Beth os byddwn ni'n
agor y drysau, a gadael
i'r byd ddod i mewn?

Ona Beth-os?





Syniad gwreiddiol: Alfons Cornella

Testun: Gina Clotet

Lluniau: Silvia Morilla

Dyluniad: Curro Astorza

Argraffiad cyntaf: Ionawr 2018

Cyfieithwyd gan: Iwan Huws

Ona Beth-os?

Fy enw i yw Ona.
Mae mam yn dweud 'mod i'n
chwilfrydig fel cath.

Ona Beth-Os, dyna mae hi'n
fy ngalw i. Rwy'n caru gofyn
cwestiynau hyd yn oed os nad oes
gen i atebion.

Bob tro y byddwn ni'n gofyn 'sut?',
dw i'n meddwl y gallwn ni feddwl
am ateb.



INSTITUTE
OF NEXT
BY INFONOMIA

